Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd nos Fercher, 5 Mawrth 2025, yn dechrau am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, Miss S. Fleming, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, W. Price, Ms V. Roberts, D. Simmons, A. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Mrs H. J. Mead – Diprwy Glerc y Dref

## 73. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Mrs M. A. Blakeley-Walker, B. Mellor a Ms R. Roberts.

## 74. DATGAN BUDDIANNAU

Gofynnodd Clerc y Dref a oedd gan yr aelodau unrhyw fuddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu i'w datgan yng nghyswllt unrhyw eitem o fusnes ar yr agenda.

Datganodd y Cynghorydd Mrs D. L. King fuddiant personol yn eitem agenda rhif 8 (Cymorth i Ddigwyddiadau yn 2025) oherwydd ei swydd ar Fwrdd Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig.

## 75. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A)

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi manylion y taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

| Taleb Rhif: | Enw'r cyflenwr | Swm | Disgrifiad y nwyddau / gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| 1963 | HSBC | 8.00 | Ffioedd bancio |
| Amherthnasol | Tesco | 12.99 | Ffioedd ffôn symudol |
| 1979 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 8,644.31 | Cyflogau net – mis Chwefror 2025 |
| 1977 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 3,103.95 | Didyniadau Talu wrth Ennill – mis Ionawr 2025 |
| 1978 | Cyngor Sir y Fflint – Cronfa Bensiwn Clwyd | 3,269.74 | Didyniadau pensiwn – mis Ionawr 2025 |
| 1848 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 1,213.33 | Swyddog Apeliadau – taliad 11 o 12 |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| Amherthnasol | Tesco | 12.99 | Ffioedd ffôn symudol |
| | **Cyfanswm y taliadau** | **£16,271.31** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y cyfrif hysbysiad 31 diwrnod | 259.89 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 6 mis a aeddfedodd ar 10 Chwefror 2025 | 1,853.88 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 1 mis a aeddfedodd ar 24 Chwefror 2025 | 1,080.11 |
| Amrywiol | Gwerthiant tocynnau ar gyfer digwyddiad codi arian y Maer | 660.00 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **£3,853.88** |

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.*

## 76. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (dosbarthwyd gyda'r agenda).

| Taleb rhif: | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1981 | Proarb Ltd | Coeden Nadolig 2024 | 2,154.00 |
| 1982 | Cyngor Tref Prestatyn | Dau docyn i'r ddawns elusennol ar 4 Ebrill 2025 | 60.00 |
| 1983 | Cyngor Sir Ddinbych | Cytundeb goleuadau Nadolig 2024 | 13,111.20 |
| 1984 | Scottish Power | Trydan i'r goleuadau Nadolig 2024 (llai nodyn credyd 2023) | 20.12 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£15,345.32** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

## 77. CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR

Hysbysodd y Cadeirydd fod Cynghorydd wedi gofyn am aildrefnu Cyfarfod Blynyddol y Cyngor o ddydd Mercher, 21 Mai, i ddydd Mercher, 28 Mai 2025.

Cynghorodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE na fyddai'n medru mynd i'r cyfarfod ar 21 Mai, a gofynnodd i'r aelodau ystyried symud dyddiad y cyfarfod i 28 Mai.

Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i symud y cyfarfod wythnos yn ddiweddarach.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai Cyfarfod Blynyddol y Cyngor eleni yn cael ei gynnal ddydd Mercher, 28 Mai 2025.*

## 78. ADOLYGU'R RHEOLAU SEFYDLOG

Ymhellach i gofnod rhif 69 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2024, cyfeiriodd Clerc y Dref at fersiwn ddiwygiedig Rheolau Sefydlog y Cyngor Tref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda), fel yr argymhellwyd gan yr Is-bwyllgor Asesu Risgiau.

Roedd y fersiwn ddiwygiedig yn adlewyrchu'r holl newidiadau mewn deddfwriaeth ers yr adolygiad diwethaf ym mis Tachwedd 2018.

Mewn ymateb i sylwadau aelod, cynghorodd Clerc y Dref, yn wahanol i Gynghorwyr Sir, nid yw'n ofynnol i Gynghorwyr Tref gadw eu camera ymlaen wrth fynychu cyfarfod ar-lein.

Yna cafwyd trafodaeth ynghylch sut mae Cynghorwyr yn dangos yn glir sut maent yn pleidleisio gyda'u camera ymlaen neu'r camera wedi'i ddiffodd, a sut y gellir sicrhau cyfrinachedd os yw camera cynghorydd wedi'i ddiffodd?

***PENDERFYNWYD*** *gohirio'r eitem i alluogi Clerc y Dref i baratoi adroddiad ynghylch y ddeddfwriaeth berthnasol am y materion hyn i roi eglurder, a gwahodd Swyddog Monitro Cyngor Sir Ddinbych i gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol i gynghori am hyn.*

**79. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

**80. CYMORTH I DDIGWYDDIADAU YN 2025**

Ymhellach i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2025, a'r cyflwyniad a dderbyniwyd gan Mr Gwyn Hughes o Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig, cyfeiriodd Clerc y Dref at adroddiad dilynol gan Hamdden Sir Ddinbych (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn cadarnhau'r digwyddiadau arfaethedig i'r Cyngor Tref eu hystyried.

Awgrymodd Clerc y Dref ystyried pob digwyddiad arfaethedig yn unigol i alluogi cael trafodaeth lawn am bob un.

Roedd yr aelodau'n fodlon â'r tri digwyddiad a gynigiwyd, ond yn teimlo y dylid ystyried defnyddio'r Arena Digwyddiadau ac Eglwys Sant Tomos i sicrhau mwy o ledaeniad ar draws y gymuned ac ymgysylltu â'r cyhoedd ledled canol y dref, a bod o fwy o fudd i'r economi leol.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai Clerc y Dref yn ymateb yn unol â hynny ac yn gofyn i Hamdden Sir Ddinbych am gostau diwygiedig.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *ohirio'r Rheolau Sefydlog i alluogi Clerc y Dref i ymateb fel mater o frys.*

81. **DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod, cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Llofnod: ……………...…………

Dyddiad: ………………………....